Strategaeth Fwyd Genedlaethol Cymru

Y mater

Nid oes gennym weledigaeth y cytunir arni ar gyfer system fwyd Cymru. Mae offerynnau polisi'r llywodraeth wedi'u gwahanu mewn seiliais adrannol. Mae angen gweithredu cydgysylltiedig i integreiddio polisi bwyd ar draws pob maes o'r llywodraeth, gan gynnwys iechyd, addysg, newid hinsawdd, amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a'r economi ar lefel leol. Mae hyn yn galw am Strategaeth Fwyd Genedlaethol sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu agroecolegol a bwyd cymunedol, a gaiff ei chyflawni drwy drefniadau llywodraethu hygyrch a chadarn.

Pam mae'n bwysig i Gymru

- Mae bwyd yn esgor ar ganlyniadau – cadarnhaol a negyddol – i'r economi, iechyd y cyhoedd, natur a'r hinsawdd.
- Nid yw'r gwaith o lunio polisi bwyd yn gydgysylltiedig: nid yw'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), strategaeth y diwydiant bwyd a diod ac agendâu iechyd y cyhoedd yn cyd-fynd â'i gilydd
- Mae'r galw am system fwyd sy'n cysylltu cynhyrchwyr lleol â defnyddwyr yn tyfu yng Nghymru[1]
- Dim ond 2% o'r ffrwythau a'r llysiau y mae Cymru'n eu bwyta y mae'n eu tyfu, ac mae'n dibynnu'n helaeth ar fewnforion o fannau eraill yn y DU ac o rai o'r gwledydd tramor sydd fwyaf agored i niwed gan newid hinsawdd.[2]

Cyd-fynd â chyd-destun polisi Cymru

- Mae polisïau bwyd diweddar yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ond nid yw'r Ddeddf yn sôn am fwyd
- Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn darparu fframwaith ar gyfer cadwyni cyflenwi cymdeithasol gyfrifol, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus brynu bwyd a gynhyrchir i safonau amgylcheddol uwch, yn wahanol i reoliadau caffael newydd Lloegr sydd ar ddod. Rydym am i hyn gael ei gyflwyno drwy is-ddeddfwriaeth.
- Mae'r Weledigaeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod o 2021 yn anelu at gael "un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn y byd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol", ond ni phennodd unrhyw ddangosyddion na thargedau i lywio'r gwaith cyflawni
- Cyflwynodd Llywodraeth Cymru flaenorol y Strategaeth Bwyd Cymunedol, sy'n canolbwyntio ar gadwyni cyflenwi lleol a phrosiectau bwyd cymunedol

Ein safbwynt

- Heb ddull integredig, hirdymor, bydd anghydraddoldebau iechyd, effeithiau ar natur a'r hinsawdd, a gwydnwch y system fwyd i gyd yn gwaethygu
- Mae cryfhau cadwyni cyflenwi lleol a rhanbarthol, gyda chefnogaeth mentrau cymunedol a Phartneriaethau Bwyd Lleol, yn lleihau'r risg y bydd siociau byd-eang yn effeithio arnynt
- Mae systemau agroecolegol, fel ffermio organig, yn adeiladu priddoedd iach a gwydn ac yn cefnogi bioamrywiaeth, gan wella gwydnwch yn wyneb tywydd eithafol
- Mae'r SFS a'r Partneriaethau Bwyd Lleol yn dangos cynnydd addawol, cydgysylltiedig o ran cynaliadwyedd, cadwyni cyflenwi lleol a mynediad at fwyd, ond mae hyn yn parhau i fod wedi'i wasgaru ar draws polisïau yn hytrach na'i nodi mewn un fframwaith cydgysylltiedig, wedi'i dargedu.

Tystiolaeth/cyfeiriadau

1. Cynnal Cymru: Adeiladu system fwyta wydn i Gymru
2. Synnwyr Bwyd Cymru: Addasu a Gwrthsefyll

Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol
Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/what-we-do/soil-association-cymru

Sut rydym yn mynd i'r afael â hyn

- Rydym wedi dadlau o blaid Strategaeth Fwyd Genedlaethol ers tro byd, yn uniongyrchol[3] ac fel aelodau o Cynghrair Polisi Bwyd Cymru[4]
- Fe wnaethom ymgysylltu â'r Chweched Senedd yn y cyfnod yn arwain at y strategaeth a rhoi tystiolaeth lafar i Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ar y Bil Bwyd (Cymru)
- Mae Soil Association yn cyd-arwain rhwydwaith Lleoedd Bwyd Cynaliadwy gyda Bwyd o Bwys a Sustain. Synnwyr Bwyd Cymru yw ein partner cenedlaethol yng Nghymru, sy'n cefnogi partneriaethau bwyd cymunedol ledled y wlad

Yr hyn rydym eisiau i lunwyr polisïau yng Nghymru ei wneud:

Rhaid i Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru alluogi camau pendant ar draws system fwyd gyfan Gymru. Mae hyn yn golygu bod angen i'r strategaeth:

- osod targedau mesuradwy ar gyfer iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd, yr economi a diogeled bwyd
- gynnwys gweledigaeth ar gyfer system fwyd Cymru a'r defnydd o dir/môr yn 2050, gyda diffiniadau cadarn ar gyfer systemau cynhyrchu (e.e. adfywiol, agroecolegol) a thermau allweddol ("diogeled bwyd cenedlaethol", "cyfiawnder bwyd", "gwydnwch y system fwyd") ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus
- gynnwys mecanweithiau craffu annibynnol i asesu cynnydd, meithrin cydlynant ar draws y llywodraeth, a sicrhau atebolrwydd
- wneud argymhellion ar rôl deddfwriaeth wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni nodau'r strategaeth yn yr hirdymor, megis diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ystyried mewnbwn gan arbenigwyr cyfreithiol a chyfansoddiadol perthnasol, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

ac i gynnwys:

- camau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer sectorau allweddol, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Garddwriaeth a Chynllun Gweithredu Organig
- argymhellion ar gyfer targedau caffael cyhoeddus ar gyfer bwyd a gynhyrchir i safonau amgylcheddol uwch
- argymhelliad y dylid datblygu canllawiau clir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer data amgylcheddol/cyfalaf naturiol ar lefel y fferm, gan adeiladu ar ddulliau presennol megis y Global Farm Metric
- argymhellion ar ddata gofodol y system fwyd i lywio fframwaith defnydd tir a môr yn y dyfodol, gan ystyried dibyniaethau ar ecosystemau byd-eang.

Yn eu tro, rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i:

- ddyrannu cyfrifoldebau gweinidogol clir (iechyd, yr economi, diwylliant, addysg) ar gyfer dull integredig, trawsadrannol o ymdrin â bwyd
- Ddatblygu Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) (neu gyfwerth) yn swyddogaeth dystiolaeth integredig system fwyd Cymru, gan ehangu ei gylch gwaith i gynnwys data ar lefel y fferm a data nad yw'n ymwneud â ffermydd (iechyd, tlodi bwyd, yr economi fwyd, bwyd ysgol), er mwyn olrhain cynnydd y Strategaeth gan ddefnyddio un sylfaen dystiolaeth
- ddatblygu canllawiau clir ar gyfer monitro cynaliadwyedd ar lefel y fferm a'r system fwyd, gan adeiladu ar ddulliau megis y Global Farm Metric, er mwyn meithrin hyder buddsoddwyr ac arallgyfeirio'r cyllid ar gyfer ffermio sy'n gyfeillgar i natur - sy'n rhyngweithredol â safonau ledled y DU (e.e. BSI, TNFD) yn hytrach na chreu baich adrodd ar wahân
- gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol yn erbyn canlyniadau a thargedau a phroses adolygu ar gyfer y strategaeth
- gyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o 'Bwyd o Bwys' (2029) sy'n dangos mwy o integreiddio polisi
- gynnal cymorth ariannol i bartneriaethau bwyd cymunedol.

Tystiolaeth/cyfeiriadau

3. Soil Association Cymru: 2026 Cymru election manifesto
4. Synnwyr Bwyd Cymru: Undeb Polisi Bwyd Cymru

Cysylltu/gwybodaeth ychwanegol
Andrew Tuddenham, Pennaeth Polisi Cymru atuddenham@soilassociation.org
Amy Cartwright, Cynorthwy-ydd Polisi Cymru acartwright@soilassociation.org

www.soilassociation.org/what-we-do/soil-association-cymru